

CFA08 Colegau Cymru

Senedd Cymru | Welsh Parliament

Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau
Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and
International Relations Committee


Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?

Ymateb gan: Colegau Cymru | Evidence from: Colleges Wales

Mae Colegau Cymru yn elusen addysg; rydym yn hyrwyddo budd cyhoeddus addysg a dysgu ôl-orfodol. Fel y sefydliad sy'n cynrychioli holl golegau Cymru, rydym mewn sefyllfa dda i allu amlinellu barn y sector addysg bellach ar y defnydd o'r Gymraeg ac a yw'n gynhwysol o fewn lleoliad hyfforddiant addysgol a galwedigaethol. Mae Colegau Cymru yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd ceisio datblygu sgiliau Cymraeg pobl nid yn unig i'w defnyddio mewn cyd-destun addysgol ond hefyd yn y gweithle ac mewn cymunedau. Os gallwn gynyddu'r cyfleoedd dysgu ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chyflwyno'n ddwyieithog, gallwn ddatblygu ymhellach sgiliau a hyder dysgwyr i'w defnyddio yn y gweithle ac mewn sefyllfaoedd bob dydd.

Rhifau dysgwyr

Mae data Stats Cymru yn dangos bod canran cyfanswm y gweithgareddau dysgu sy'n cynnwys rhywfaint o Gymraeg mewn colegau wedi cynyddu ers 2014/15. Mae'r categorïau sydd wedi'u cynnwys yn hyn yn cynnwys y rhai a gyflwynir yn gyfan gwbl yn Gymraeg, y rhai a ddarperir yn ddwyieithog, a'r rhai sy'n cynnwys naill ai swm 'bach' neu 'sylweddol' o Gymraeg yn eu darpariaeth.



Yng Ngholeg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, mae dysgwyr wedi cael y cyfle i gael gwers Gymraeg yn ychwanegol at eu prif gwrs, 'Cymraeg i'r Gweithle.' Pan gyflwynwyd y cynllun, 'Gwasanaethau Cyhoeddus' ac 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol' oedd yr adrannau oedd yn derbyn gwersi Cymraeg. Mae hwn bellach wedi ei ehangu i gynnig gwersi Cymraeg mewn amryw o bynciau, gan gynnwys Celf, Astudiaethau Cyfryngau, a Gofal Anifeiliaid. Dyma esiamplau o adborth gan ddysgwyr:

“Ar y penwythnos, dw i’n gweithio mewn Cartref Gofal, a dwi wedi sylwi bod y trigolion yn llawer hapusach pan dwi’n defnyddio’r Gymraeg gyda nhw.” - [REDACTED]

“Rwyf wedi bod yn defnyddio’r Gymraeg gyda chwsmeriaid yn y siop lle rwy’n gweithio ar benwythnosau.” - [REDACTED]

“Rwy’n rhoi gwersi nofio i blant bach, ac mae’r plant yn teimlo’n llawer mwy hyderus pan dwi’n defnyddio’r Gymraeg gyda nhw.” - [REDACTED]

“Dw i wedi bod yn defnyddio’r Gymraeg yn y bwyty, a dwi wedi cael mwy o tips!” - [REDACTED]

Mae ein haelodau yn cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ac yn darparu ystod o wasanaethau i ddysgwyr yn ddwyieithog ac yn ceisio annog y defnydd o’r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd coleg.

Cymraeg Gwaith

Mae'r prosiect 'Cymraeg Gwaith', a sefydlwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi'i gynllunio i hybu hyder a sgiliau staff sy'n mentro'r Gymraeg am y tro cyntaf a'r rhai sy'n siarad Cymraeg ar lefel canolradd, mewn colegau ar draws Cymru. Ariennir Cymraeg Gwaith gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'i gweinyddu gan y Coleg. Mae'r cynllun yn cynnig 120 awr o hyfforddiant iaith mewn blwyddyn i staff ar bob lefel, hyd yn oed gyda hyfedredd lefel mynediad – gyda'r bwriad o gwblhau'r lefel gyfan cyn diwedd y flwyddyn academaidd. Mae gan bob coleg diwtor Cymraeg Gwaith sy'n cynnal gweithdai i ddatblygu sgiliau Cymraeg staff. Mae gan y staff sy'n cymryd rhan y dewis i hunan-astudio neu gymryd rhan mewn dosbarthiadau wythnosol a sesiynau tiwtor sydd ar gael i gefnogi dysgwyr newydd yn ogystal â dechrau a chefnogi sgysiau i gefnogi'r dysgwyr. Maent wedi datblygu prosiect pellach o'r enw Cymraeg Gwaith+ sy'n cefnogi staff ar lefel hyfedredd canolradd i ddatblygu eu sgiliau hyd at lefelau rhuglder.

Mae dros 380 o staff ledled Cymru wedi ymuno â'r prosiect Cymraeg Gwaith y flwyddyn academaidd hon, a'r nod yw i 80% o'r dysgwyr hyn fod yn staff sy'n delio â dysgwyr o ddydd i ddydd yn ogystal â 30% o ddysgwyr yn dod o feysydd blaenoriaeth (Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Amaethyddiaeth, Chwaraeon a Hamdden, Diwydiannau Creadigol, Busnes ac Adeiladu). Dengys data eleni fod 35% o ddysgwyr o feysydd blaenoriaeth a 71% o staff o'r adrannau academaidd o'r sefydliadau. Dylid nodi bod y ffigurau hyn yn amrywio o goleg i goleg yn dibynnu ar lefelau hyfedredd blaenorol y staff a faint mae'r coleg yn hysbysebu'r prosiect hwn. Yng Ngholeg Gwent, gyda llai o siaradwyr Cymraeg yn nodweddiadol yn yr ardal, daw 72% o ddysgwyr y prosiect o'r meysydd blaenoriaeth. Mae hyn yn dangos arwydd cadarnhaol y bydd gan y meysydd blaenoriaeth hyn staff gyda'r sgiliau i siarad a gwneud sgysiau arbenigol yn Gymraeg am eu diwydiannau penodol yn y dyfodol.

Argaeledd cyrsiau dwyieithog

Mae colegau yn adrodd am lwyddiannau wrth recriwtio dysgwyr i gyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Er enghraifft, mae Coleg Gwent, gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, wedi cynyddu ei ddysgwyr dwyieithog mewn meysydd astudio allweddol gan gynnwys Plant a Gofal Iechyd o 7% i 52% dros y pum mlynedd diwethaf trwy greu mynediad at fodiwlau a dosbarthiadau dwyieithog a addysgir i annog datblygu sgiliau yn y ddwy iaith. Mae hyn yn amlygu bod mwy o ddysgwyr yn dod i'r coleg gyda hyfedredd dwyieithog. Mae hefyd yn dynodi bod dysgwyr yn awyddus i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith ymhellach, a gwella eu rhagolygon gyrfa. Mae'r mentrau hyn nid

yn unig yn cefnogi'r defnydd beunyddiol o'r Gymraeg a siaredir o ddydd i ddydd ond gallant hefyd annog a chynyddu hyder pobl nad oeddent efallai wedi bod yn hyderus cyn y sesiynau hyn.

Prentisiaethau

Os ydym am gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn arbennig i annog mwy o Gymraeg i gael ei siarad mewn ardaloedd lle mae llai o siaradwyr Cymraeg, mae'n hanfodol mabwysiadu dull system addysg gyfan, ac mae angen i gyflogwyr chwarae eu rhan. Mae gan golegau gysylltiadau sefydledig â chyflogwyr, a dylid bob amser ystyried sicrhau trefniadau pontio cadarn ar gyfer dysgwyr, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenorol. Mae'n gadarnhaol gweld y cynnydd yn nifer y prentisiaid sy'n dilyn cwrs dwyieithog o 10% yn 2016 i 25% yn 2022. Gellir esbonio'r ffigur hwn gan nifer cynyddol y prentisiaid sy'n cwblhau elfennau o'u prentisiaeth yn ddwyieithog. Fodd bynnag, mae angen sylweddol o hyd am fuddsoddiad o fewn prentisiaethau er mwyn dod o hyd i staff a chyflogwyr sydd â'r argaeledd a'r capasiti i gwblhau'r prentisiaeth yn ddwyieithog neu yn y naill iaith neu'r llall.

Buddsoddi yn yr iaith

Mae sicrhau bod y codiad dwyieithog yn cefnogi ac yn gwobrwyo datblygiad yn hanfodol. Her barhaus sy'n wynebu colegau yw sicrhau bod digon o ddarlithwyr â'r sgiliau angenrheidiol i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn arbennig o heriol mewn rhai sectorau, lle mae'n rhaid i'r darlithydd fod yn weithiwr proffesiynol deuo, gyda phrofiad uniongyrchol yn y diwydiant, a sgiliau addysgu Cymraeg. Tra bod gan nifer o sefydliadau rôl i'w chwarae, a chydweithio i'w groesawu, mae maint yr her sy'n wynebu'r sector o ran prinder athrawon yn gofyn am arweiniad clir a chadarn ar lefel genedlaethol i yrru'r agenda yn ei blaen. Er mwyn cyrraedd targed 2050 Llywodraeth Cymru ar gyfer siaradwyr Cymraeg, mae angen buddsoddiad sylweddol. Er ei bod yn obeithiol gweld y llwyddiannau hyd yn hyn, mae angen buddsoddiad ar y prosiectau a'r gweithgareddau hyn i barhau ac i helpu i gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru.

Os byddai'r Pwyllgor yn dymuno ymweliad â choleg fel rhan o'i ymchwiliad, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â [REDACTED]

Yr eiddoch yn gywir,

Rachel Cable

Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus
